Minutes of the remote meeting of the City Council, which took place via ZOOM video conferencing on **Monday 18 May 2020** at 6.30 p.m.

**PRESENT: -** His Worship The Mayor Councillor John Wyn Williams **(in the chair)**
The Deputy Mayor Councillor Owen Hurcum

| | | | |
|---|---|---|---|
| Councillors | Les Day | John Wynn Jones | Gareth Roberts |
| | Derek Hainge | Colin King | Mair Rowlands |
| | Dylan Fernley | Kieran Jones | Luke Tugwell |
| | Medwyn Hughes | Enid Parry | George Turner |
| | John Martin (due to technical issues left after 5 minutes) | | Gwynant Roberts |

Officer: - Martin Hanks, Town Clerk

**214/19 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors: Elin Walker Jones, Huw Wynn Jones, Ifan James and Nigel Pickavance.

Following a proposal from Cllr Day
**RESOLVED:** to set aside Standing Orders relevant to meeting protocols, including the wearing of robes and standing to speak.

**215/19 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**
None.

**216/19 URGENT BUSINESS**
None.

**217/19 MINUTES**

a) Council Meeting – 9 March 2020

**RESOLVED:** that the Minutes of the above Meeting be received and confirmed as a correct record and signed by the Mayor.

b) Planning & Amenities Committee - 9 March 2020

**RESOLVED:** that the Minutes of this Meeting be confirmed as a correct record subject to one minor correction.

**218/19 ANNUAL MEETING AND MAYORAL SUCCESSION**

Following the recent legislative changes introduced by the Local Authorities (Coronavirus) (Meetings) (Wales) Regulations 2020, the Council discussed the timing of the Annual Meeting and the scheduling of the Mayoral Succession. It was felt that a change in leadership during the current national crisis should be avoided, especially given the vast local government experience of the current Mayor.

**RESOLVED**: a) to defer the Annual Meeting until late 2020; b) to maintain continuity the Mayor and Deputy Mayor for the municipal year 2019/2020 remain in their current positions for the whole of the 2020/2021 municipal year; c) a motion of thanks to the Mayor and Town Clerk for the leadership and hard work they have demonstrated since the onset of the current crisis was unanimously approved.

**219/19 COVID-19 SUPPORT GRANT**

It was reported that the COVID19 Support Grant, established in March 2020, has awarded £7,800 to local charities and community groups assisting those suffering greater hardship as a result of the COVID19 pandemic. Early accounts from recipient organisations confirm that two £1,000 grants had resulted in a total of over 450 food boxes being distributed to residents.

**RESOLVED**: To extend the scheme for a further three months and to make available a further £5,000 per month to the project.

**220/19 PIER UPDATE**

The Pier restoration programme is currently paused part-way through phase four. The scaffolding around the relevant area has been in situ for almost eighteen months and needs to be dismantled by October 2020 at the latest. It was discussed whether to dismantle the scaffolding or to proceed with phase four to completion.

**RESOLVED**: To defer a final decision on phase four of the Pier until a specific meeting on the topic can discuss the costs and implications in detail.

**221/19 BANGOR ORCHARDS**

The establishment of two orchards in Bangor was debated. The first, a proposal between a Bangor University student and City and County Councillors, to establish an orchard in Bangor on City Council land was received. This was followed by a discussion on the Japanese Cherry Trees, which are scheduled to arrive in the autumn.

**RESOLVED**: a) to confirm that the Japanese Cherry Trees are still arriving, as planned, given the current international crisis; b) to begin preparatory work on the land in Ashley Jones Field for the Japanese Cherry Tree; c) to request that the proposer of the Bangor Orchard present a report to the Council; d) to establish a Strategic Planning Committee to examine the City Council's land and assets with a view to the preparation of a coordinated blueprint.

**222/19 THE IMPACT OF COVID-19 ON THE CITY & WHAT HAPPENS NEXT**

This item was deferred.

**223/19 PLANNING APPLICATIONS**

**RESOLVED:** that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below: -

**C20/0187/11/DT** Erection of a single storey flat roofed extension to the rear of the property. 11 Gerddi Penlon.
**No objection**

**C20/0333/11/LL** Change of use from a dwelling (Use Class C3) into a house in multiple occupation (Use Class C4). Henllys Ffordd Deiniol, Bangor. **Objection - there are already an excess of HMOs in this area of the City and this application will increase this capacity in an already overdeveloped area. The application states that 24.9% of existing properties in the Ward are HMO's. The City Council challenges this figure as being too conservative and believes the true percentage is noticeably higher. Can the percentage be verified, please?**

**224/19 INVOICES FOR PAYMENT**

The invoices had been approved for payment as detailed on the schedule produced in April totalling £29265.86, and May £6155.13. The invoices were available for any Member to see if necessary.
**RESOLVED:** that the payments be noted.

**225/19 SIGNING OF DOCUMENTS**

**RESOLVED:** that authority be given for the signing of documents on the City Council's behalf pertinent to open decisions of the Council taken at this Meeting.

The Meeting closed at 7.50 p.m.

Cofnodion cyfarfod-o-bell Cyngor y Ddinas, a gynhaliwyd trwy fideo-gynadledda ZOOM **nos Lun 19 Mai 2020** am 6.30 p.m.

**PRESENNOL** :- Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd John Wyn Williams (yn y gadair)
Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Owen Hurcum

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr | Les Day | John Wynn Jones | Gareth Roberts |
| | Derek Hainge | Colin King | Mair Rowlands |
| | Dylan Fernley | Kieran Jones | Luke Tugwell |
| | Medwyn Hughes | Enid Parry | George Turner |
| | John Martin (oherwydd problemau technegol gadawodd ar ôl 5 munud) | | |
| | Gwynant Roberts | | |

Swyddog :- Martin Jones, Clerc y Dref Dros Dro

**214/19 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Elin Walker Jones, Huw Wynn Jones, Ifan James a Nigel Pickavance.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Day
**PENDERFYNWYD:** rhoi'r Rheolau Sefydlog o'r neilltu o safbwynt protocolau cyfarfod, yn cynnwys gwisgo'r gynau a sefyll i siarad.

**215/19 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim.

**216/19 MATERION BRYS**
Dim.

**217/19 COFNODION**

a) Cyfarfod y Cyngor – 9 Mawrth 2020

**PENDERFYNWYD:** derbyn a chadarnhau fel rhai cywir Cofnodion Cyfarfod y Cyngor uchod a'u harwyddo gan y Maer.

b) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau - 9 Mawrth 2020

**PENDERFYNWYD:** cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod uchod fel rhai cywir ar ôl un mân gywiriad.

**218/19 CYFARFOD BLYNYDDOL AC OLYNIAETH Y MAER**

Yn dilyn y newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Reoliadau Awdurdod Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020, trafododd y Cyngor amseru'r Cyfarfod Blynyddol ac ethol Maer newydd. Y teimlad oedd y dylid osgoi newid mewn arweinyddiaeth yn ystod yr argyfwng presennol cenedlaethol, yn enwedig o ystyried y profiad helaeth sydd gan y Maer presennol mewn llywodraeth leol.

**PENDERFYNWYD**: a) gohirio'r Cyfarfod Blynyddol tan ddiwedd 2020; b) er mwyn cael parhad, Maer a Dirprwy Faer blwyddyn ddinesig 2019/2020 i aros yn eu swyddi presennol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2020/2021 yn ei chyfanrwydd;
c) Gwneud cynnig o ddiolch i'r Maer a Chlerc y Dref am yr arweinyddiaeth a'r gwaith caled a gafwyd ganddynt ers dechrau'r argyfwng presennol. Cymeradwywyd hyn yn unfrydol.

**219/19 GRANT CYMORTH COVID-19**

Adroddwyd fod Grant Cymorth COVID-19, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2020, wedi rhoi £7,800 i elusennau lleol a grwpiau cymunedol i helpu'r rheiny sy'n dioddef caledi o ganlyniad i bandemig COVID 19. Mae adroddiadau cynnar gan ddau o'r mudiadau yn cadarnhau fod dau grant o £1,000 wedi arwain at gyfanswm o dros 450 o focsys bwyd yn cael eu dosbarthu i breswylwyr.

**PENDERFYNWYD**: Ehangu'r cynllun am dri mis arall, a dyrannu £5,000 y mis pellach i'r prosiect.

**220/19 DIWEDDARIAD Y PIER**

Mae rhaglen adfer y Pier wedi'i atal ar hyn o bryd hanner ffordd drwy gam pedwar. Mae'r sgaffaldiau o amgylch yr ardal berthnasol wedi bod yn eu lle ers bron i ddeunaw mis ac mae angen eu tynnu i lawr erbyn Hydref 2020 fan hwyraf. Trafodwyd a ddylid tynnu'r sgaffaldiau neu symud ymlaen a chwblhau Cam Pedwar.

**PENDERFYNWYD**: Gohirio penderfyniad terfynol ar gam pedwar o'r Pier nes y gall cyfarfod penodol ar y pwnc drafod y costau a'r goblygiadau yn fanwl.

**221/19 PERLLANNAU BANGOR**

Trafodwyd sefydlu dwy berllan ym Mangor. Y cyntaf oedd cynnig rhwng myfyriwr ym Mhrifysgol Bangor a Chynghorwyr y Ddinas a'r Sir, i sefydlu perllan ym Mangor ar dir Cyngor y Ddinas. Dilynwyd hyn gan drafodaeth ar Goed Ceirios Japaneaidd, sydd i fod i gyrraedd yn yr hydref.

**PENDERFYNWYD**: a) cadarnhau a yw'r Coed Ceirios Japaneaidd yn dal i gyrraedd yn ôl y cynllun, o ystyried yr argyfwng rhyngwladol presennol; b) dechrau gwaith paratoawl ar y tir yng Nghae Ashley Jones i'r Coed Ceirios; c) gofyn i'r sawl sy'n cynnig Perllan i Fangor gyflwyno adroddiad i'r Cyngor; d) sefydlu Pwyllgor Cynllunio Strategol i archwilio tir ac asedau Cyngor y Ddinas gyda golwg ar baratoi canllawiau cydlynus.

**222/19 EFFAITH COVID-19 AR Y DDINAS a BETH SY'N DIGWYDD NESAF**

Gohiriwyd yr eitem hon.

**223/19 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD :** Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

**C20/0187/11/DT** Codi estyniad unllawr to fflat i gefn yr eiddo. 11 Gerddi Penlon. **Dim Gwrthwynebiad.**

**C20/0333/11/LL** Newid defnydd o dŷ annedd (Defnydd Dosbarth C3) i dŷ amlfeddiannaeth (Defnydd Dosbarth C4). Henllys Ffordd Deiniol, Bangor. **Gwrthwynebiad - mae yna ormod o dai amlfeddiannaeth yn yr ardal hon o'r Ddinas yn barod a byddai'r cais hwn yn cynyddu'r nifer mewn ardal sydd eisoes wedi'i gor-ddatblygu. Mae'r cais yn datgan fod 24.9% o'r eiddo presennol yn y Ward yn HMOs. Cred Cyngor y Ddinas fod y ffigwr hwn yn rhy geidwadol a bod y gwir ganran gryn dipyn yn uwch. A ellir gwirio'r canran?**

**224/19 ANFONEBAU I'W TALU**

Roedd yr anfonebau wedi'u cymeradwyo i'w talu fel ag y manylir ar y rhestr a luniwyd ym mis Ebrill, yn dod i gyfanswm o £29265.86, a mis Mai £6155.13. Roedd yr anfonebau ar gael i unrhyw Aelod eu gweld os oedd angen.

**225/19 LLOFNODI DOGFENNAU**

**PENDERFYNWYD :** rhoi hawl i lofnodi ar ran Cyngor y Ddinas y dogfennau perthnasol i benderfyniadau'r Cyngor a wnaed yn y Cyfarfod hwn.

---

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.50 p.m.